**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - MATERION YR HINSAWDD, GWASANAETHAU RHENG FLAEN A FFYNIANT**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant a gynhaliwyd Dydd Iau, 18 Ionawr 2024 am 5.00 pm ym Hybrid.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd C Middle (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd P Evans | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Stone, Head of Flood Risk Management and Strategic Projects
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd E L Dunning |
| Y Cynghorydd G O Jones | |

**33 Ymchwil a Chraffu**

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau at y cyfleusterau ymchwil sydd ar gael i Aelodau yn Uned Busnes y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i Aelodau os oes gyda nhw unrhyw ymholiadau penodol, mae modd iddyn nhw e-bostio Craffu@rctcbc.gov.uk.

**34 Ymddiheuriadau**

Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Geraint Jones, E. Dunning a J. Barton.

**35 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**36 Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 22 Tachwedd 2023 eu **CADARNHAU'N** rhai cywir.

**37 Ymgynghoriadau**

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau at y dolenni ymgynghori sydd ar gael trwy wefan 'Craffu RhCT'. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn perthynas ag ymgynghoriadau priodol i'w trafod gan y Pwyllgor bob mis a'i diweddaru bob pythefnos.

**38 Rhag-graffu mewn perthynas â'r Strategaeth Ddiwygiedig Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a'r cynllun Gweithredu.**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd rhag-graffu ar y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (LFRMS) ac y bydd sylwadau'r Aelodau'n cael eu rhannu gyda'r Cabinet. Yn dilyn hyn, cyflwynodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd ei adroddiad i'r Aelodau a dywedodd y byddai'r strategaeth wedyn yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo gan y Gweinidog.

Yn dilyn hyn, cafodd Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am drosolwg manwl a chanmolodd y strategaeth. Holodd Aelod arall a oes modd i'r gwynt waethygu llifogydd. Cadarnhaodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod y gwynt yn chwythu cynifer o falurion o gwmpas, ac mae modd i'r rhain rwystro cyrsiau dŵr mewn ceuffosydd. Yn ogystal â hynny, mae modd iddyn nhw effeithio ar ardaloedd llanw ac ati a chynyddu'r perygl o lifogydd.

Roedd sgwrs i ddilyn, a dywedodd Aelod y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adroddiad yn cynnwys llai o fyrfoddau a mwy o fanylion am y geiriau a ddefnyddir. Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod hyn bob amser yn her ac na fydd y ddogfen gryno, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn cynnwys acronymau o gwbl. Bydd y ddogfen gryno wedi'i hanelu at aelodau'r cyhoedd.

Holodd Aelod arall sut mae'r Cyngor yn annog trigolion i roi rhagor o gynlluniau atal llifogydd eu hunain ar waith, er enghraifft yn eu gerddi eu hunain, a hefyd sut mae'r Cyngor yn annog datblygwyr preifat i fabwysiadu rhagor o strategaethau atal llifogydd? Nododd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod dwy ardal dan sylw; yr ardaloedd sydd eisoes ag adeiladau arnyn nhw, a'r ardaloedd lle bydd gwaith adeiladu. O ran yr ardaloedd sydd eisoes ag adeiladau arnyn nhw, nododd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod cyfathrebu yn hollbwysig, yn ogystal ag adnoddau ar-lein a sicrhau mynediad didrafferth. Mae hefyd angen ystyried materion gorfodi, sef y rheolau a'r rheoliadau y mae'r isadeiledd bresennol yn ddarostyngedig iddyn nhw. Mae'n rhaid canolbwyntio'n bennaf ar addysg. O ran adeiladu tai, mae’n rhaid i bopeth fodloni safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer draenio cynaliadwy sydd, i bob pwrpas, yn dod o dan isadeiledd gwyrdd. Cadarnhaodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod hyn wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried Canllawiau Cynllunio,

ac mae hyn hefyd wedi'i ymgorffori yn Strategaeth y Cyngor ar Newid yn yr Hinsawdd. Mewn perthynas â hyn, holodd y Cadeirydd a oedd darpariaeth ar gyfer cynnal a chadw yn cael ei sicrhau wrth ddatblygu prosiectau adeiladu. Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod Safon 6 o Safonau Llywodraeth Cymru i gyd yn ymwneud â'r cyfnod Adeiladu a chynaliadwyedd, a chafodd yr Aelodau sicrwydd bod hyn i gyd bellach wedi'i ymgorffori yn y Strategaeth.

Parhaodd y drafodaeth a dywedodd Aelod y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ddogfen yn cynnwys dadansoddiad o ba mor agored i'r perygl o lifogydd yw pob ward. Holodd yr Aelod hefyd pa gyfrifoldeb sydd gan gwmnïau preifat i sicrhau bod eiddo preswylwyr yn ddiogel rhag llifogydd, gan ofyn sut mae'r trigolion yn cael eu paratoi ar gyfer rhybuddion llifogydd. O ran graffeg fesul ward, dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod dadansoddiad fesul ward yn rhan o'r cynllun presennol ar y wefan, ond nid yw'n cyd-fynd â'r data cyfredol a'r meddylfryd o ran dalgylchoedd (nid yw dŵr yn ufuddhau i ffiniau wardiau er enghraifft). Nododd fod y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol bresennol yn gweithio yn ôl ardaloedd strategol, ac mai nod hyn yw galluogi RhCT i weithio gyda chwmnïau mwy fel CNC a Dŵr Cymru mewn dull mwy strategol sydd wedi'i dargedu. O ran cwmnïau preifat a'u hatebolrwydd, dywedwyd wrth yr Aelodau bod gan rai cwmnïau fel Trafnidiaeth Cymru rwymedigaeth i reoli perygl llifogydd, bod prif rwymedigaethau cwmnïau preifat yn ymwneud ag esgeulustod a bod gyda nhw rwymedigaethau o dan gyfraith sifil. Ymhellach, mewn perthynas â chyfathrebu â'r cyhoedd, mae gwefan y Cyngor wrthi'n cael ei diweddaru er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am faterion ymwybyddiaeth llifogydd, a bydd yr adnoddau yma'n cynnwys dolenni a fydd yn mynd â'r defnyddiwr i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Holodd yr Aelod sut mae hyn yn cael ei rannu â thrigolion er mwyn sicrhau eu bod nhw'n effro i'r sefyllfa ddiweddaraf? Dywedodd yr Uwch Swyddog Rheoli Perygl Llifogydd fod y Cyngor yn arbrofi gydag is-gynlluniau yn y gymuned, a'i fod yn awyddus i weld rhagor o waith ymgyrchu ac achlysuron sy'n ymgysylltu â thrigolion.

Parhaodd y trafodaethau a holodd Aelod sut mae'r strategaeth yma'n cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, gan ofyn beth arall y byddai'r Awdurdod yn ei wneud pe bai'r adnoddau ar gael? Holodd yr Aelod hefyd a oes gyda ni'r adnoddau i orfodi rheoliadau adeiladu a chynllunio perygl llifogydd yn ystod y broses gynllunio. Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod ganddo garfan Rheoli Perygl Llifogydd da iawn a dywedodd fod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda iawn. O ran adnoddau ychwanegol, dywedwyd wrth yr Aelodau ein bod ni mewn sefyllfa dda iawn o fewn cyfyngiadau gwariant Llywodraeth Cymru, a bod Cyngor RhCT yn gefnogol iawn o ran dyrannu'r adnoddau sydd eu hangen i reoli perygl llifogydd. Mewn perthynas â gorfodi, dywedwyd wrth yr Aelodau bod swyddog gorfodi wedi'i ddyrannu i'r garfan ac ers i'r swyddog hwnnw gael ei benodi, bu cynnydd amlwg yng ngweithgarwch y Cyngor o ran gorfodi. Yr awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am faterion gorfodi sy'n ymwneud â chynllunio. Cefnogodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen yr asesiad yma, a dywedodd fod gan yr Awdurdod lawer o arbenigedd mewnol, sy'n ein rhoi mewn sefyllfa dda iawn o ran perygl llifogydd. Pwysleisiwyd hefyd fod llifogydd weithiau y tu allan i gyfrifoldeb y Cyngor ac weithiau yn gyfrifoldeb ar awdurdodau rheoli risg eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dilynodd trafodaethau a chyfeiriodd Aelod yn ôl at y byrfoddau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad, gan awgrymu y dylid defnyddio rhestr termau ar ddechrau'r strategaeth i sicrhau ei bod hi'n hawdd i'r cyhoedd ei darllen. Holodd yr Aelod beth yw'r sefyllfa gyfreithiol o ran defnyddio byrfoddau mewn dogfen statudol?

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod angen byrfoddau i wneud y ddogfen yn fwy hylaw, neu fel arall byddai'r ddogfen yn mynd yn llawer rhy hir ac ailadroddus. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y rhestr termau yng nghefn y ddogfen, ac y byddai ei symud hi i du blaen y ddogfen yn syniad da. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r argymhelliad yma.

Holodd Aelod arall a oedd Swyddogion yn meddwl bod y strategaeth yn addas at y diben wrth symud ymlaen, yn enwedig gan fod yr hinsawdd yn newid mor gyflym ac yn enwedig yn wyneb toriadau yn y gyllideb a mesurau cyni. Aeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen ati i egluro y gallai ardaloedd nad ydynt yn cael eu heffeithio ar hyn o bryd wynebu perygl llifogydd yn y dyfodol, a bod adnoddau'n gyfyngedig. Serch hynny, pwysleisiwyd bod y ddogfen yn nodi strategaeth gyffredinol y Cyngor ac yn ein rhoi ni mewn sefyllfa dda wrth edrych i'r dyfodol Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod y Strategaeth yn sefydlog am tua 5-6 mlynedd, ond nid yw'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiwygio hyd yma, felly bydd yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu grantiau cyllid cyfredol ac ati. Pwysleisiwyd hefyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n diweddaru'r data dadansoddi risg, yn enwedig y mapiau, bob 6 mis.

Holodd y Cadeirydd ymhellach a oedd yr holl gamau o ran Adran 19 wedi'u hymgorffori yn y strategaeth a'r cynllun gweithredu yma. Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod yr holl gamau gweithredu sy'n weddill bellach wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu.

Holodd Aelod arall a oes modd i sefyllfa gofi yn y dyfodol lle gallai'r Cyngor storio'r dŵr sydd dros ben er mwyn helpu'r trigolion trwy fisoedd sych yr Haf. Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd mai Dŵr Cymru sy'n rheoli'r cyflenwad dŵr mewn gwirionedd, ond roedd y Swyddog yn cydnabod y gallai hyn fod yn bosibilrwydd yn y dyfodol. Holodd y Cadeirydd ymhellach sut mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â Strategaeth y Cyngor o ran Newid yn yr Hinsawdd. Dywedodd yr Uwch Swyddog Rheoli Perygl Llifogydd fod Pennod 4 yn y Strategaeth yn canolbwyntio'n benodol ar ymgorffori heriau o ran Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd. Mae manylion hefyd yn y strategaeth ar sut y bydd y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar fuddion bioamrywiaeth wrth symud ymlaen ac ati.

Dilynodd trafodaethau a holodd Aelod a yw'r Cyngor yn gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill i fynd i'r afael â materion tebyg? Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd mai RhCT sydd â'r perygl llifogydd dŵr wyneb mwyaf yng Nghymru. Mewn perthynas â gweithio ar y cyd â phartneriaid, dywedwyd wrth yr Aelodau bod Awdurdodau Lleol cyfagos a sefydliadau partner yn cyfarfod bob ychydig fisoedd i drafod materion trawsbynciol a chael dogfennau polisïau/canllawiau ar y cyd. Holodd Aelod arall a oedd gan Gyngor RhCT fap o geuffosydd ledled y Fwrdeistref Sirol. Holodd yr Aelod hefyd am amser ymateb y Cyngor pan ddaw'r Cyngor yn effro i lifogydd. O ran y ceuffosydd, dywedwyd wrth yr Aelodau bod dros 60% mewn perchnogaeth breifat ar hyn o bryd. Lle bo problem, y bwriad yw y bydd y Cyngor yn targedu adnoddau i gasglu a rhoi trefn ar yr wybodaeth honno. O ran amseroedd ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau bod yn rhaid gosod galwadau yn nhrefn blaenoriaeth, a bod yn rhaid i'r garfan weithio o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen wrth yr Aelodau y byddai croeso iddyn nhw ymweld ag ystafell reoli'r Cyngor ac fe'u cynghorwyd i drefnu hyn trwy garfan Uned Busnes y Cyngor.
Cyfeiriodd Aelod arall o'r Pwyllgor at gyfeiriad yn yr adroddiad at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1946 a nododd fod y ddeddfwriaeth hon wedi'i diddymu. Dywedodd y

swyddogion y bydden nhw'n e-bostio'r Aelod ar wahân i roi gwybod am yr adran benodol o'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Strategaeth. Holodd y Cadeirydd ymhellach a oedd gan y Cyngor gynlluniau wrth gefn ac a oedd y cynlluniau yma'n cynnwys gweithio gyda gwasanaethau brys allanol. Dywedodd y Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd fod y Strategaeth yn cynnwys cynlluniau at argyfwng a chynlluniau wrth gefn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

i. Rhag-graffu ar Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Diwygiedig y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu sydd ynghlwm yn Atodiad A; a,

ii. Rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chyflwyno adborth i'r Cabinet, yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 24 Ionawr 2024.

**39 Materion Brys**

Doedd dim mater brys i'w drafod.

**40 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, y byddai sylwadau'r Aelodau'n cael eu bwydo'n ôl i'r Cabinet ac y byddai llythyr yn cael ei lunio yn crynhoi'r argymhellion a ddaeth i law.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.13 pm**

**Y Cynghorydd C Middle**
**Cadeirydd.**